

HYSBYSIAD ETHOLIAD

Ethol Cynghorwyr Cymuned

dros y Wardiau Cymuned a restrir isod

Wardiau Cymuned	Nifer y Cynghorwyr Cymuned i gael eu hethol	Wardiau Cymuned	Nifer y Cynghorwyr Cymuned i gael eu hethol
Trefesgob (Ward Trefesgob)	Un	Maerun	Un-ar-ddeg
Trefesgob (Ward Underwood)	Deuddeg	Llanfihangel-y-Fedw	Saith
Coedcernyw	Saith	Tre'ronnen	Saith
Allteuryn	Saith	Pen-hw	Wyth
Graig (Ward Basaleg)	Naw	Redwick	Pump
Graig (Machen Isaf)	Un	Tŷ-du (Ward y Dwyrain)	Pedwar
Graig (Ward Rhiwderyn)	Pump	Tŷ-du (Ward y Gogledd)	Pedwar
Langstone (Ward Langstone)	Wyth	Tŷ-du (Ward y Gorllewin)	Saith
Langstone (Ward Llanfarthin)	Pedwar	Gwynllŵg (Ward Llanbedr)	Pedwar
Llanfaches	Saith	Gwynllŵg (Ward Llansanffraid)	Pump
Llan-wern	Saith		

- Gellir cael ffurflenni enwebu ar gyfer yr Etholiadau i Gyngorau Cymuned o Ystafell 528, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR gan y Swyddog Canlyniadau a fydd, ar gais etholwr o unrhyw ardal etholiadol, yn paratoi papur enwebu i gael ei lofnodi.
- Rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau, Ystafell 527a, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR, rhwng **10:00 a 16:00** ar unrhyw ddiwrnod gwaith (o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio Gwyliau Banc) o ddyddiad yr hysbysiad hwn, ond heb fod yn hwyrach na **16:00 ddydd Mawrth, 5 Ebrill 2022**. Bydd archwiliad anffurfiol o bapurau enwebu a dosbarthu electronig ar gael hyd at **12:00 ddydd Mawrth, 5 Ebrill 2022**.
- Os ymlleddir unrhyw etholiad, caiff y bleidlais ei chynnal **ddydd Iau 5 Mai 2022**.
- Rhaid i geisiadau cofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 canol nos ar 14 Ebrill 2022. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio
- Dylai etholwyr a'u dirprwyon sylwi bod rhaid i bob cais am bleidleisiau post newydd, pleidleisiau drwy ddirprwy drwy'r post a diwygiadau neu ganslo pleidleisiau post a dirprwy presennol, gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol isod, erbyn **17:00 ddydd Mawrth, 19 Ebrill 2022**. Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu eu dirprwyon sy'n dymuno gwneud newidiadau i'w trefniadau presennol yn barhaol.
- Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Ystafell 528, y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR erbyn **17:00 ddydd Mawrth, 26 Ebrill 2022**.
- Rhaid i geisiadau am bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail anabled, am resymau sy'n ymwneud â gwaith/gwasanaeth neu'r angen i gydymffurfio â deddf neu ganllawiau gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r coronafeirws, gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad uchod erbyn **17:00 ar 5 Mai 2021**. Rhaid bod yr analluedd corfforol wedi digwydd ar ôl **17:00 ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022**. Er mwyn gwneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth neu'r coronafeirws, rhaid bod y person wedi sylweddoli ar ôl **17:00 ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022** na fyddai'n gallu mynd i'r orsaf bleidleisio.
- Dylid cyflwyno ymholiadau cychwynnol i Leanne Rowlands, Dirprwy Swyddog Canlyniadau, Ystafell 528, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR; Ffôn: 01633 210744

Datganiad Cyflwyno'n Electronig

Rhaid cyflwyno papurau enwebu a gyflwynir yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn. Gellir cyflwyno Papurau Enwebu ar ffurf electronig o fewn yr amserlen a ganiateir ar gyfer cyflwyno enwebiadau. <https://tinyurl.com/33ky53f4>

Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn y papurau enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiad cau penodol. Nid yw cyfeirnod electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am ei benderfyniad ynghylch a yw ei enwebiad yn ddilys ai peidio.

Beverly Owen
Swyddog Canlyniadau
Cyngor Dinas Casnewydd
Y Ganolfan Ddinesig,
Casnewydd
NP20 4UR

